ATODLEN 1

CYNLLUN PENSIWN NEWYDD Y DIFFODDWYR TÂN (CYMRU)

# RHAN 12

## TROSGLWYDDIADAU I MEWN AC ALLAN O'R CYNLLUN

### PENNOD 5

### PENSIYNAU A GAMWERTHWYD A THALIADAU ADFER

**Pensiynau a gamwerthwyd**

**14.**—(1) Mae'r rheol hon yn gymwys i ddiffoddwr tân sydd—

(a) wedi ymeithrio neu wedi trosglwyddo allan, neu'r ddau, a

(b) wedi dioddef gan golled sy'n agored i gyfraith o dan adran 150 o Ddeddf Gwasanaethau Ariannol a Marchnadoedd Ariannol 2000(**1**) (achosion cyfreithiol am iawndal mewn perthynas â thorri rheolau etc a wnaed o dan y Ddeddf).

(2) Caiff diffoddwr tân y mae'r rheol hon yn gymwys iddo ac sydd wedi rhoi hysbysiad—

(a) o dan reol 6 o Ran 2 yn dileu ei ddewisiad cyfraniadau, neu

(b) o dan reol G3(5) o Gynllun 1992 (dileu dewisiad i beidio â thalu cyfraniadau),

roi hysbysiad ysgrifenedig i'r awdurdod ei fod yn dymuno bod yr awdurdod yn derbyn taliad gwerth trosglwyddo er mwyn creu neu adfer ei wasanaeth pensiynadwy.

(3) Mae paragraff (4) neu (5) yn gymwys os yw'r awdurdod, o fewn deuddeng mis i ddyddiad hysbysiad a roddir o dan baragraff (2) neu unrhyw gyfnod hwy a ganiateir gan yr awdurdod, wedi derbyn taliad gwerth trosglwyddo mewn perthynas â'r diffoddwr tân a roes yr hysbysiad (p'un a yw wedi peidio â bod yn ddiffoddwr tân ar ôl dyddiad yr hysbysiad ai peidio) a hwnnw'n daliad nad yw'n fwy na'r swm a gyfrifwyd.

(4) Pan fo swm y taliad gwerth trosglwyddo yn hafal i'r swm a gyfrifwyd—

(a) ymdrinnir â'r cyfan o'r cyfnod perthnasol fel gwasanaeth pensiynadwy, a

(b) at ddibenion cyfrifo unrhyw ddyfarndal o dan y Cynllun hwn, ymdrinnir â'r diffoddwr tân a roes yr hysbysiad fel un sydd wedi gwneud cyfraniadau pensiwn drwy gydol y cyfnod hwnnw.

(5) Pan fo swm y taliad gwerth trosglwyddo yn llai na'r swm a gyfrifwyd—

(a) rhaid i'r awdurdod, yn unol â'r dulliau a'r rhagdybiaethau perthnasol, gyfrifo'r cyfnod o wasanaeth pensiynadwy y mae'r taliad gwerth trosglwyddo yn ei gynrychioli, a thrin y cyfnod hwnnw fel gwasanaeth pensiynadwy,

(b) at ddibenion cyfrifo unrhyw ddyfarndal o dan y Cynllun hwn, ymdrinnir â diffoddwr tân a roes yr hysbysiad fel un sydd wedi gwneud cyfraniadau pensiwn drwy gydol y cyfnod hwnnw, ac

(c) ymdrinnir â'r cyfnod hwnnw fel cyfnod parhaus gyda'r un dyddiad terfynol â dyddiad terfynol y cyfnod perthnasol.

(6) Pan fo diffoddwr tân sy'n cael ei gredydu o dan baragraff (4) neu (5) â chyfnod o wasanaeth pensiynadwy wedi'i gredydu o'r blaen, mewn perthynas â'r cyfnod perthnasol, â'r naill neu'r llall o'r cyfnodau canlynol, sef—

---

(**1**) 2000 p.8 y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(a) cyfnod ychwanegol o wasanaeth pensiynadwy a gyfrifir yn unol â'r Rhan hon, neu

(b) cyfnod ychwanegol o wasanaeth cyfrifadwy yn unol â Rhan 4 o Atodlen 6 i Gynllun 1992 (swm y gwerth trosglwyddo),

caiff yr awdurdod addasu swm y taliad gwerth trosglwyddo y mae'n ei dderbyn o dan y rheol hon i sicrhau na chaiff unrhyw ran o'r cyfnod ychwanegol o wasanaeth pensiynadwy neu gyfrifadwy a oedd wedi'i gredydu o'r blaen ei chynnwys yn y cyfnod o wasanaeth pensiynadwy a gredydwyd o dan baragraff (4) neu (5).